

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Practis Meddyg Teulu Ravenscourt

Dyddiad y gweithgarwch: 01 Rhagfyr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 31 Rhagfyr 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Meddyg Teulu Ravenscourt fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Ravenscourt yw un o'r pedwar practis sy'n ffurfio Practis Grŵp y Fro, sy'n darparu gwasanaethau i bobl y Barri a'r cyffiniau.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Meddyg Teulu arweiniol a Rheolwr y Practis ar 01 Rhagfyr 2020, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom holi'r practis am y ffordd mae'n gwneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn cael mynediad diogel a phriodol i wasanaethau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg amgylcheddol, a oedd yn cynnwys y ffordd roedd y practis yn cynllunio i liniaru unrhyw risgiau. Roedd rhestr wirio diogelwch ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 ynghyd â hyn.

Pan oedd y pandemig ar ei waethaf, dywedwyd wrthym fod llawer o glinigau a gwasanaethau wedi'u lleihau yn sylweddol neu wedi dod i ben. Llwyddodd rhai clinigau hanfodol, megis gofal am glwyfau, i barhau gyda'r staff yn defnyddio lefel uwch o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE). Gwnaed penderfyniad i roi'r gorau i bigiadau B12 lle y bo'n bosibl a rhoi cyngor ar faeth i'r cleifion er mwyn hybu hunanofal. Cyn y pandemig, cafodd yr holl wasanaethau fflebotomi eu canoli yn Ysbyty y Barri. Newidiwyd y system galw i mewn i system trefnu apwyntiadau, a dywedwyd wrthym fod rhai problemau wedi bod gyda hynny. Datblygodd y practis ei wasanaeth fflebotomi ei hun er mwyn sicrhau bod modd i archwiliadau hanfodol fynd rhagddynt heb amharu fawr ddim ar therapïau'r cleifion.

Dywedwyd wrthym y gwnaed newidiadau i'r amgylchedd ffisegol. Gosodwyd lloriau caled yn lle'r carpedi, a rhoddwyd seddi y gellir eu sychu'n lân yn lle rhai ffabrig er mwyn sicrhau bod modd eu glanhau'n addas. Gosodwyd sgriniau yn y dderbynfa, a thynnwyd taflenni, cylchgronau ac eitemau eraill nad oeddent yn hanfodol o'r ardal aros. Dywedwyd wrthym fod arwyddion y tu allan a'r tu mewn i'r practis, ynghyd â marciau llawr parhaol, i hyrwyddo pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau â chlinigwyr yn cael eu cynnal dros y ffôn. Roedd unrhyw ymholiadau nad oeddent yn rhai brys, megis cofrestru cleifion ac ymholiadau am bresgripsiynau, yn cael eu gwneud dros e-bost. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i ddod i apwyntiadau ar amser a gofynnwyd iddynt aros y tu allan i'r feddygfa tan y byddai'r staff yn eu galw. Esboniodd rheolwr y practis bod system intercom wedi cael ei gosod y tu allan i ddrysau'r fynedfa lle y byddai modd i'r cleifion roi gwybod eu bod wedi cyrraedd, heb orfod dod i mewn i'r adeilad. Tynnwyd y seddi o'r ardal aros er mwyn cadw pellter cymdeithasol diogel rhwng y cleifion. Gofynnwyd i bob claf aros y tu allan/yn y car tan y byddai un o glinigwyr y feddygfa yn eu galw. Rhoddwyd system un ffordd ar waith gyda marciau pellter cymdeithasol i leihau cyswllt rhwng y cleifion. Tynnwyd offer cyfrifiadurol o'r swyddfeydd er mwyn atal pobl rhag ymweld â'r feddygfa yn ddiangen.

Roedd meddygfa Porthceri yn cael ei defnyddio fel 'hwb gwib'¹ i weld cleifion a oedd yn dangos symptomau COVID-19. Roedd Practis Sant y Brîd yn cael ei ddefnyddio fel amgylchedd 'safle diogel' i'r cleifion y barnwyd eu bod yn wynebu risg uwch o ddatblygu cymhlethdodau difrifol o COVID-19. Cafodd yr aelodau o'r staff y barnwyd eu bod yn wynebu risg uchel eu hadleoli yno dros dro nes i'r systemau TG a thelathrebu gweithio gartref eu hailgynllunio er mwyn sicrhau bod modd i staff gweinyddol a staff clinigol weithio gartref o bell yn llawn.

Dyweddodd y meddyg teulu arweiniol wrthym fod y practis yn cynnal ymweliadau â chartrefi ac ymweliadau â chartrefi gofal o hyd pan fyddai'n gwbl angenrheidiol. Dywedwyd wrthym, pe bai angen cynnal ymweliadau â chartrefi, y meddyg teulu arweiniol fyddai'n eu cynnal. Dywedodd y meddyg teulu wrthym ei fod yn defnyddio PPE llawn ac yn dilyn canllawiau ynghylch cadw pellter cymdeithasol wrth wneud unrhyw ymweliadau y tu allan i'r practis. Dywedwyd wrthym fod PPE ac eitemau eraill o gyfarpar untro yn cael eu rhoi mewn bag priodol a'u gwaredu mewn biniau gwastraff clinigol yn y practis pan fyddai clinigwyr yn dychwelyd.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym fod staff nad ydynt yn hanfodol yn cael eu hannog i weithio o bell lle y bo'n bosibl. Rhoddwyd systemau ar waith a phrynwyd cyfarpar megis gliniaduron i sicrhau bod modd iddynt wneud hynny. Dywedwyd wrthym fod ceisiadau am bresgripsiynau yn cael eu hamgryptio a'u hanfon yn ddiogel drwy fodd digidol a gymeradwywyd gan y GIG, yn uniongyrchol at y fferyllfa a ddewiswyd gan y claf. Lle nad oedd hyn yn bosibl, byddai'r presgripsiynau'n cael eu hanfon drwy ffacs i'r fferyllfeydd neu byddai gyrwyr y fferyllfeydd yn eu casglu. Rhoddwyd gwybod i'r cleifion am y drefn hon.

Dyweddwyd wrthym fod prosesau newydd yn cael eu hadolygu'n barhaus ac nad oedd unrhyw gwynion na phryderon wedi dod i law ar adeg y gwiriad ansawdd.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dyweddwyd wrthym, pe bai angen cynnal ymweliadau â chartrefi neu ymweliadau â chartrefi gofal, y meddyg teulu arweiniol fyddai'n eu cynnal fel arfer. Fodd bynnag, ni luniwyd unrhyw asesiadau risg ffurfiol ar gyfer ymweliadau â chartrefi mewn perthynas â COVID-19. Er mwyn ffurfioli hyn, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r practis lunio asesiad risg ar gyfer ymweliadau â chartrefi. Mae'n ofynnol cael asesiad risg ffurfiol ar gyfer ymweliadau â chartrefi ac ymweliadau â chartrefi gofal sy'n nodi gweithdrefnau penodol ar gyfer COVID-19.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y broses hon, gwnaethom adolygu polisiau rheoli heintiau, amserlenni glanhau a hyfforddiant staff. Gwnaethom hefyd gwestiynu'r lleoliad am y ffordd y mae'r newidiadau y

¹ lle i feddygon teulu weld cleifion â symptomau'r coronafeirws wyneb yn wyneb

mae wedi'u cyflwyno i wneud yn siŵr bod safonau rheoli heintiau priodol yn cael eu cynnal. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, gwelsom dystiolaeth o asesiad restr wirio diogelwch ar gyfer risgiau COVID-19 a oedd yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym yn ystod y pandemig fod y practis wedi cyfyngu ar nifer y cleifion a oedd yn dod i'r safle ar gyfer apwyntiadau, lle y bo'n bosibl. Roedd system e-bost yn galluogi cleifion i gyflwyno lluniau o anhwylderau a oedd yn cael eu hadolygu gan glinigwyr. Yn ogystal, roedd ymgynghoriadau o bell ac apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gael.

Roedd asesiad risg yn cael ei gynnal ar gyfer cleifion a oedd yn dod i apwyntiadau wyneb yn wyneb i sicrhau nad oedd ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Byddai unrhyw un a oedd yn dangos symptomau'r feirws yn cael ei weld yn yr hwb gwib ym Mhractis Porthceri. Roedd cleifion hefyd yn cael cyfarwyddiadau diogelwch ar gyfer dod i'r practis.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant atal a rheoli heintiau diweddaraf, a oedd yn cynnwys hyfforddiant digonol i sicrhau defnydd priodol o PPE. Roedd y practis wedi cael rhoddion o sgryps ac roedd yn ofynnol i'r holl staff eu gwisgo a newid eu dillad yn y gwaith. Cafodd y clinigwyr y sgryps a roddwyd i'w gwisgo wrth aros i gael y sgryps wedi'u codio â lliw i'r holl staff. Roedd PPE priodol ar gael i'r staff yn yr adeilad, a dywedodd rheolwr y practis fod digon wrth gefn.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi datblygu amserlen glanhau ddiwygiedig yn benodol ar gyfer COVID-19. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, cafodd lloriau a chadeiriau newydd eu gosod i sicrhau y byddai modd eu glanhau'n ddigonol. Dywedodd Rheolwr y practis wrthym fod chwistrell a weips Diheintio Dilys/Bactereiddiol wedi cael eu prynu a bod yr ystafelloedd yn cael eu dihalogi cyn eu defnyddio. Roedd cyfarpar diangen wedi cael ei symud o'r swyddfeydd a'r ardaloedd aros ac roedd yr ystafelloedd yn cael eu cadw dan glo er mwyn leihau nifer y bobl a fyddai'n ymweld â nhw.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC adolygu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau pandemig yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd gwestiynau'r lleoliad am y ffordd mae wedi addasu ei wasanaeth yn sgil pandemig COVID-19, sut mae'n rhyngweithio â gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a'i brosesau rheoli risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd Practis Grŵp y Fro, ynghyd â chwe phractis arall, yn ffurfio rhan o Glwstwr Meddygon Teulu Canol y Fro² ac yn darparu ar gyfer poblogaeth o fwy na 60,000 o bobl.

Dywedwyd wrthym fod cyfathrebu da rhwng y bwrdd iechyd a'r practis. Roedd staff y practis yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth pe bai unrhyw faterion yn codi lle byddai angen cynnwys y bwrdd iechyd. Cafodd gwasanaethau ychwanegol³ eu haddasu a'u darparu, a'r bwrdd iechyd oedd yn ysgogi hyn. Disgrifiwyd y systemau ar gyfer gweithio gydag asiantaethau eraill, megis y fferyllfa a gweithwyr iechyd perthynol proffesiynol.

Esboniodd y staff fod pob apwyntiad rheolaidd yn cael ei gynnal dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo drwy gydol y pandemig. Roedd y galwadau'n cael eu brysbennu gan y clinigwyr, ac roedd un rhestr frysennu ar gyfer apwyntiadau brys ac apwyntiadau rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi gohirio mân lawdriniaethau, ond ei fod bellach yn gwneud trefniadau i ddychwelyd i wasanaeth arferol. Rhoddwyd y gorau i gynnal sgrinio serfigol ar y dechrau, ond dywedwyd wrthym fod hyn wedi ailgychwyn bellach. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y gwasanaeth cyswllt iechyd meddwl lleol wedi cael problemau staffio, a bod llawer o'r cleifion yn cael eu gweld gan y meddygon teulu. Roedd Practis Grŵp y Fro wedi cyflogi Uwch-nyrs Iechyd Meddwl i ddarparu ymgynghoriadau iechyd meddwl a oedd yn cael eu cynnal dros y ffôn bellach o ganlyniad i'r trefniadau gweithio o bell yn ystod pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod oedi wedi bod mewn perthynas â'r gwasanaethau iechyd meddwl o ganlyniad i'r galw mawr am y gwasanaethau yn ystod y pandemig.

Gwelsom fod y staff yn cael adnodd asesu risg ar gyfer y gweithlu, ac y byddai'r staff yn ei gwblhau er mwyn dangos eu categori risg pe byddent yn cael y feirws. Roedd yr aelodau o'r staff â risg uchel yn cael eu hadleoli i weithio yn y safle glân yn Sant y Brîd neu'n gweithio o bell gartref. Esboniodd rheolwr y practis sut oedd y staff yn cael eu cefnogi drwy gyfathrebu â'r staff rheoli yn rheolaidd. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm a thrwy grŵp cyfathrebu rhithwir, a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gadw mewn cysylltiad â'r staff, p'un a oeddent yn y gwaith ai peidio. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd rhithwir wythnosol yn cael eu cynnal rhwng y meddygon teulu a'r rheolwyr. Roedd yr holl staff yn cael negeseuon e-bost wythnosol i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â nhw ac roedd rheolwr y practis a'r partneriaid meddygon teulu yn anfon negeseuon e-bost gyda'r wybodaeth ddiweddaraf. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant staff ym maes rheoli heintiau hyd at lefel 2.

Mae trefniadau a chyfathrebu â gwasanaethau y tu allan i oriau wedi parhau, gydag

² Ystyr clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) unigol GIG Cymru. Mae'r meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith Ardal.

³ Gwasanaethau ychwanegol yw gwasanaethau meddygol y tu allan i gwmpas arferol gwasanaethau meddygol sylfaenol, sy'n cael eu cynllunio ar sail anghenion y boblogaeth leol.

adroddiadau'n cael eu lawrlwytho i nodiadau'r cleifion drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru⁴ at sylw'r meddyg ar ddyletswydd. Dywedwyd wrthym fod cleifion wedi cael eu rhyddhau o ofal eilaidd yn rhy gynnar ar adegau, yn arbennig cleifion a oedd yn cael gofal diwedd oes, neu lle roedd angen sicrhau pecynnau gofal a meddyginiaethau. Cafodd y wybodaeth hon ei chyfleu i'r bwrdd iechyd. Y meddygon teulu oedd yn gwneud y trefniadau ar gyfer presgripsiynau a gwasanaethau gofal yn y cartref yn yr achosion hyn.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

⁴ System genedlaethol yng Nghymru yw Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru, ar gyfer rhannu gwybodaeth glinigol, megis atgyfeiriadau, yn electronig, sy'n cyfuno systemau gofal sylfaenol ac eilaidd gan ddefnyddio technoleg y rhyngwyd sy'n gyfarwydd ond hefyd yn ddiogel iawn.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Meddyg Teulu Ravenscourt

Dyddiad y gweithgarwch: 1 Rhagfyr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	<p>Nid oedd proses ffurfiol ar gyfer asesu risgiau ar waith ar gyfer ymweliadau â chartrefi nac ymweliadau â chartrefi gofal.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r practis lunio dogfen asesu risgiau ar gyfer ymweliadau â chartrefi ac ymweliadau â chartrefi gofal sy'n nodi gweithdrefnau penodol ar gyfer COVID-19.</p>	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu lechyd a Diogelwch	<p>Cwblhawyd y Ddogfen Asesu Risgiau.</p> <p>Parhau i gynnal ymweliadau cwbl angenrheidiol yn unig. Sicrhau y caiff asesiad risg ffurfiol ei gynnal cyn unrhyw ymweliad.</p>	Dr B Roper Partner Meddyg Teulu Arweiniol	Gweithredwyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar

waith.

Enw: Linda Church

Dyddiad: 18 Rhagfyr 2020